# Polisi ynghylch Costau Teithio a Chynhaliaeth Staff

## Pobl, Digidol a Pholisi

Dyddiad: Ebrill 2009
Diweddarwyd EBM/ACE: 14 Ionawr 2010, 3 Ionawr 2023, Chwefror 2025
Adolygwyd: Mai 2025
Dyddiad Adolygu: Ebrill 2028



sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

## Cwmpas ac Egwyddorion Cyffredinol

1. Mae Cyngor Sir Caerfyrddin (yr Awdurdod) wedi ymrwymo i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd ac mae'n cydnabod bod gennym rôl sylweddol i'w chwarae fel cyflogwr mawr i leihau ein hôl troed carbon ein hunain, gan gynnwys teithio busnes. Ym mis Chwefror 2019, gwnaethom ddatgan argyfwng hinsawdd ac ymrwymo i fod yn awdurdod lleol carbon sero-net erbyn 2030.

2. Yn ogystal, mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i nod Llywodraeth Cymru i gefnogi 30% o weithlu Cymru i weithio o bell. Byddai hyn yn rhoi'r dewis i fwy o bobl weithio mewn ffordd sy'n helpu eu cynhyrchiant yn ogystal â'u cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith. Mae manteision gweithio o bell yn cynnwys:

    - gostyngiad mewn amser teithio a chostau teithio
    - mwy o hyblygrwydd a chydbwysedd gwell rhwng gwaith a bywyd
    - gwell cynhyrchiant
    - llai o draffig, yn enwedig yn ystod oriau brig
    - llai o lygredd aer a sŵn
    - y cyfle i ailgynllunio ein trefi a chanol ein dinasoedd

3. Mae'r polisi hwn yn nodi'r gweithdrefnau ar gyfer hawlio costau teithio a threuliau eraill wrth i chi ysgwyddo costau angenrheidiol a rhai a gymeradwywyd ymlaen llaw wrth i chi gyflawni eich gwaith. Os yw'r rheiny'n wahanol o gwbl i'r Amodau Cenedlaethol, yr Amodau Lleol fydd yn berthnasol. Mae'r polisi'n berthnasol i'r holl weithwyr cyflogedig a gweithwyr sy'n gweithio o dan gytundeb achlysurol. Dylai'r un egwyddorion fod yn berthnasol i staff ysgolion a gyflogir yn lleol ac argymhellir bod Cyrff Llywodraethu yn mabwysiadu'r polisi hwn. Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu o dro i dro a'i ddiwygio yn dilyn hynny.

4. Egwyddor sylfaenol y polisi hwn yw y dylid ystyried teithio sy'n gysylltiedig â gwaith yn ddewis olaf. Dylid ystyried pob math arall o gyfathrebu, gan gynnwys cyfarfodydd rhithwir trwy Zoom neu Microsoft Teams, dros y ffôn, ac ati cyn i unrhyw deithio yn cael ei wneud. Pan fydd angen teithio, telir am y dull rhataf neu fwyaf effeithiol o deithio. Efallai mai trafnidiaeth gyhoeddus yw'r dull rhataf o deithio ond efallai na fydd bob amser yn fwyaf effeithiol os, er enghraifft, nad yw amserlenni'n cyd-fynd ag amseroedd cyfarfod neu lle gellid lleihau'r amser a dreulir yn teithio yn sylweddol os byddwch yn teithio mewn car. Yn yr amgylchiadau hyn, dylid cytuno ar y dull teithio gyda'ch rheolwr llinell ymlaen llaw. Lle gall anabledd effeithio ar eich opsiynau teithio, mae angen ystyried hyn, a thrafodir addasiadau rhesymol gyda'ch rheolwr llinell. Mae enghreifftiau o pryd y gallai cyfarfod "wyneb yn wyneb" fod yn briodol, yn unol â'n Canllaw Gweithio Hybrid, yn cynnwys:

    - Lle mae gofyniad statudol ar gyfer cyfarfodydd "wyneb yn wyneb".
    - Lle nad oes gan y rheiny sydd i ddod i'r cyfarfod y sgiliau priodol i ddefnyddio'r dechnoleg angenrheidiol.
    - Lle gall anabledd atal rhywun rhag defnyddio technoleg i gyfathrebu.

- Er mwyn sefydlu a chynnal perthynas waith e.e. gweithwyr newydd sydd angen cwrdd â chydweithwyr i gynorthwyo gyda'u cyfnod ymsefydlu i'r Cyngor, i gefnogi iechyd a llesiant gweithiwr, i gynnal morâl timau.
- Lle mai dim ond o leoliad sefydlog neu wyneb yn wyneb y gellir darparu hyfforddiant e.e. hyfforddiant codi a chario.
- Rhai cyfarfodydd cysylltiadau gweithwyr lle mae'r undebau llafur a/neu weithwyr yn gofyn am gwrdd mewn lleoliad i sicrhau gynrychiolaeth deg.
- Rhai cyfarfodydd gyda defnyddwyr gwasanaeth
- Archwiliadau safle sy'n ofynnol yn ystod dyletswyddau arferol.
- Rhai cyfarfodydd democrataidd ag aelodau etholedig.
- Rhai apwyntiadau Iechyd Galwedigaethol e.e. arolygiaeth HAVS.

5. Rhaid darllen y ddogfen hon ochr yn ochr ag adran 11 o Reolau Gweithdrefnau Ariannol yr Awdurdod ynghylch costau Teithio a Chynhaliaeth, y Polisi Risg Ffyrdd a'r Lwfansau Prydau Bwyd (Atodiad A). Fe'ch atgoffir bod cyflwyno hawliadau teithio a/neu gostau cysylltiadau anwir yn gyfystyr â Chamymddwyn Difrifol a allai arwain at golli'ch swydd.

6. Yn unol â pharagraff 12.4 o'r Rheolau Gweithdrefnau Ariannol, y man cychwyn a gorffen arferol ar gyfer teithiau swyddogol fydd eich man gwaith contractiol (nid eich cartref os ydych yn weithiwr hybrid). Pan fyddwch yn cychwyn taith o leoliad gwahanol i'ch man gweithio contractiol neu'n gorffen taith mewn lleoliad gwahanol i'ch man gweithio contractiol, dim ond y milltiroedd ychwanegol a deithiwyd yn sgil y dyletswyddau swyddogol y dylid eu hawlio. Gweler enghreifftiau yn Atodiad B.

7. Yn unol â pharagraff 12.5 o'r Rheolau Gweithdrefnau Ariannol, rhaid i hawliadau wedi'u cwblhau gael eu cymeradwyo gan lofnodwr a gymeradwywyd gan y Prif Swyddog yn electronig trwy MyView lle bo hynny'n bosibl. Rhaid i hawliadau am ad-dalu'r holl dreuliau gael eu cefnogi gan dderbynebau TAW perthnasol. Ni ddylech ardystio eu hawliadau treuliau eu hunain. Bydd cyflwyniadau hwyr yn cael eu hawdurdodi yn ôl disgresiwn y llofnodwr awdurdodedig. Rhaid rhoi derbynebau TAW i'ch rheolwr llinell a'u cadw ar gyfer pob hawliad yn unol â chyfnodau cadw ariannol. Gellir rhoi'r rhain yn electronig os ydych yn gweithio o bell.

8. Dylech wirio pa mor resymol yw costau taith ansafonol, prydau bwyd neu arhosiad dros nos, gyda'ch rheolwr ymlaen llaw cyn archebu neu wneud trefniadau.

9. Os nad yw'r Cyfarwyddwr neu'r swyddog enwebedig yn credu bod y costau yn rhesymol mae hawl ganddo bennu uchafswm neu wrthod y cais. Dylech wedyn gael cyfle i ailgyflwyno'ch hawliad yn unol â'r hyn y cytunwyd arno'n rhesymol.

## Rôl y Rheolwr

10. Mae rheolwyr yn gyfrifol am fonitro trefniadau teithio eu tîm yn weithredol i sicrhau mai dim ond teithiau hanfodol sy'n cael eu gwneud gan ddefnyddio'r dulliau teithio mwyaf effeithlon a chost-effeithiol. Nod y Cyngor yw lleihau teithio ac mae'n annog y defnydd o opsiynau teithio "mwy gwyrdd" ac opsiynau gweithio ystwyth/hybrid lle bynnag y bo modd. Mae'n adrodd yn flynyddol ar ei allyriadau carbon o

hawliadau milltiroedd. Efallai y gofynnir i reolwyr awdurdodi cadarnhau sut maent wedi bodloni eu hunain o resymoldeb hawliadau milltiroedd eu timau mewn perthynas â thargedau Carbon Sero Net y Cyngor.

11. Dylai rheolwyr sicrhau bod aelodau tîm:

- Wedi asesu a yw'r daith yn angenrheidiol ac na ellir cynnal y cyfarfod dros y ffôn, Microsoft Teams neu opsiynau ar-lein eraill (Gweler adran 4).
- Yn defnyddio'r mathau mwyaf economaidd a (lle bo'n bosibl) "mwyaf gwyrdd" o drafnidiaeth e.e. ceir adrannol trydan, trafnidiaeth gyhoeddus.
- Rhannu trafnidiaeth gyda'u cydweithwyr wrth fynd i'r un cyfarfod neu ddigwyddiad, lle bo hynny'n briodol ac yn amodol ar yr asesiadau risg diweddaraf yn y gweithle a chanllawiau'r llywodraeth.
- Rheoli eu dyddiaduron yn effeithiol fel y gellir grwpio cyfarfodydd gyda'i gilydd ar yr un diwrnod ar gyfer yr un lleoliad.
- Gweithio'n ystwyth lle bo'n bosibl o'r lleoliad lle mae'r cyfarfodydd yn cael eu cynnal.
- Cytuno ymlaen llaw pan na ellir bodloni'r meini prawf hyn.
- Cyflwyno hawliadau teithio yn ystod y mis ar ôl i'r gwariant gael ei ysgwyddo yn unol ag adran 11.3 o'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol gyda'r holl wybodaeth yn cael ei darparu'n glir. Os na chyflwynir ceisiadau o fewn yr amserlen hon mae'n bosibl y byddant yn cael eu gwrthod.
- Efallai y gofynnir i reolwyr awdurdodi gadarnhau sut y maent wedi bodloni eu hunain o resymoldeb hawliadau hwyr.

12. Rhaid i Reolwyr a Goruchwylwyr, ynghyd â'r gweithiwr sy'n ymgymryd â gyrru sy'n gysylltiedig â busnes, sicrhau bod gennych y categori cywir o drwydded ar gyfer y cerbydau sy'n cael eu gyrru a bod y drwydded yn gyfredol ac yn gyfredol. Rhaid i Reolwyr Gwasanaeth sicrhau bod gwiriadau blynyddol ar drwyddedau gyrru yn cael eu cynnal a rhaid i chi gydweithredu â'r gwiriadau hyn.

## Defnyddio'r Cerdyn Credyd Corfforaethol

13. Efallai y bydd achlysuron lle bydd defnyddio Cerdyn Credyd Corfforaethol yr Awdurdod yn briodol - gweler paragraff 8.17 o'r Rheolau Gweithdrefnau Ariannol.

## Lwfansau Teithio

Cyffredinol

14. Os mai defnyddio cerbyd yw'r dull teithio mwyaf effeithlon a chost-effeithiol, fe'ch anogir i ddefnyddio cynllunwyr llwybrau ar-lein, megis Google Maps neu AA Route Planner ymlaen llaw i benderfynu ar y llwybr mwyaf priodol ar gyfer

taith benodol. Os byddwch yn dewis defnyddio'ch llwybr eich hun yn lle hynny, dim ond cost y llwybr byrraf ar gynllunydd llwybr fydd yn cael ei thalu i chi.

15. Os yw'r Cyfarwyddwr neu'r uwch-swyddog enwebedig yn cytuno, cyn gwneud taith, bod dull arall o deithio, e.e. trên neu fws, yn amhriodol oherwydd amser dechrau, amserlen anaddas neu gysylltiadau gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus, byddwch yn cael eich awdurdodi i deithio gan ddefnyddio'r dulliau teithio mwyaf effeithlon a chost-effeithiol, er enghraifft, car hurio, car adrannol.

16. Pan fydd mwy nag un gweithiwr yn teithio i'r un cyfarfod, cynhadledd ac ati ac mae teithio mewn cerbyd preifat wedi'i awdurdodi, dylid trefnu iddynt rannu car, lle bo'n bosibl, a bydd asesiadau risg yn y gweithle a chanllawiau diweddaraf y llywodraeth yn berthnasol.

17. Cydnabyddir ei bod yn bosibl y bydd argyfwng neu na fydd teithio rheolaidd drwy ddefnyddio llwybrau a bennwyd ymlaen llaw wrth ddefnyddio cynllunydd llwybr a argymhellir bob amser yn ymarferol neu'n briodol, er enghraifft, Gofal Cartref gyda llwybrau cleient a bennwyd. Rhaid i reolwr y gwasanaeth sicrhau bod y trefniadau teithio mwyaf effeithiol ar waith drwy geisio cymorth gan y tîm trafnidiaeth.

Teithio ar Drên

18. Dylid teithio ar drên gyda thocyn wedi'i brynu ymlaen llaw lle bo hynny'n bosibl gan y mai hyn fel arfer fydd y tocyn mwyaf economaidd neu ei brynu ar y diwrnod teithio lle nad yw prynu ymlaen llaw yn bosibl. Gellir talu ymlaen llaw gan ddefnyddio'r cerdyn credyd corfforaethol neu ei dalu gan y gweithiwr a'i hawlio yn ôl. Dylid ond defnyddio gwarantau teithiau trên o dan amgylchiadau eithriadol.

19. Rhaid cael derbynebau os oes angen unrhyw deithiau ychwanegol mewn bws neu dacsi.

20. Lle bo hynny'n bosibl dylai swyddogion sy'n teithio gydag aelodau etholedig ar fusnes swyddogol drefnu eu taith trwy'r Gwasanaethau Democrataidd er mwyn arbed cymaint o arian â phosibl.

Defnydd o geir hurio a cheir adrannol

21. Dylech geisio defnyddio'r dulliau trafnidiaeth mwyaf effeithiol gan gynnwys ceir adrannol y Cyngor a cherbydau hurio. Efallai y bydd eich Uned Cymorth Busnes adrannol yn gallu eich cynorthwyo gyda threfniadau archebu os nodir mai hwn yw'r dull cludiant mwyaf effeithlon ac economaidd.

22. Bydd angen i chi gael sesiwn ymgyfarwyddo â gyrru cyn defnyddio ceir adrannol y Cyngor. Mae hynny at ddibenion yswiriant.

23. Eich cyfrifoldeb chi yw cynnal gwiriadau cyn teithio ac ymgyfarwyddo â char hurio.

24. Chi sy'n gyfrifol am sicrhau bod gennych drwydded yrru ddilys cyn ymgymryd ag unrhyw deithio sy'n gysylltiedig â busnes mewn car fflyd, car hurio neu gar adrannol. Os ydych wedi'ch gwahardd rhag gyrru, rhaid i chi roi gwybod i'ch Goruchwyliwr/Rheolwr ar unwaith, sydd yn ei dro yn gorfod hysbysu'r Rheolwr Fflyd yn unol â Pholisi Risg Ffyrdd Fflyd yr Awdurdod.

25. Gall defnyddio unrhyw gerbyd heb drwydded yrru ddilys olygu bod eich yswiriant yn annilys (cerbyd eich hun) a gall arwain at gamau disgyblu.

Defnyddio cerbyd personol at ddibenion busnes

26. Dylid defnyddio'ch cerbyd eich hun dim ond pan nad oes trafnidiaeth arall ar gael, er enghraifft, trenau, car adrannol, car hurio neu lle byddai'n ddefnydd aneffeithiol o amser i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus a lle mai dyma'r math rhataf o gludiant.

27. Rhaid i hawliadau teithio sy'n defnyddio'ch cludiant eich hun fod ar gyfer y llwybr byrraf sydd ar gael i'r gyrchfan ac yn unol â'r Rheolau Gweithdrefnau Ariannol.

28. Dylid defnyddio'ch cludiant eich hun lle, mewn trafodaeth â'ch rheolwr llinell, y penderfynir mai hwn yw'r dull trafnidiaeth mwyaf effeithlon a chost-effeithiol.

29. Mae'r Cyngor yn ad-dalu cyfraddau milltiroedd busnes cerbydau preifat ar gyfraddau CThEF (mae hyn yn cynnwys cerbydau trydan yn unol â chanllawiau CThEF):

**Y cyfraddau presennol am bob milltir fusnes (yn ddarostyngedig i newidiadau a wneir gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi)**

| Y Math o Gerbyd | Hyd at 10,000 milltir | Uwch na £10,000 |
|---|---|---|
| Ceir a faniau | 45c | 25c |
| Beiciau modur | 24c | 24c |

30. Ad-delir tollau, costau fferi a ffioedd parcio os cyflwynir derbynebau.

31. Mae'n rhaid i chi sicrhau bod yswiriant eich cerbyd yn cynnwys teithio "busnes".

32. Chi sy'n gyfrifol am sicrhau bod gennych drwydded yrru ddilys cyn ymgymryd ag unrhyw deithio sy'n gysylltiedig â busnes yn eich cerbyd eich hun. Os ydych wedi'ch gwahardd rhag gyrru, rhaid i chi roi gwybod i'w

Goruchwyliwr/Rheolwr ar unwaith, sydd yn ei dro yn gorfod hysbysu'r Rheolwr Fflyd yn unol â Pholisi Risg Ffyrdd Fflyd yr Awdurdod.

Aros Dros Nos a Lwfansau Cynhaliaeth - y tu allan i'r sir

33. Rydych yn gymwys i hawlio treuliau rhesymol, yn amodol ar y gyfradd taliadau treuliau a nodir yn Atodiad B, ac ar gyflwyno derbynebau ategol.

34. Lle bynnag y bo'n bosibl, dylid archebu llety drwy eich Uned Cymorth Busnes neu'n uniongyrchol drwy'r Gwasanaethau Corfforaethol gan ddefnyddio gweithdrefnau'r cerdyn credyd corfforaethol, ond os ydych yn mynychu digwyddiad swyddogol yng nghwmni aelodau etholedig; dylid trefnu'r llety drwy'r Gwasanaethau Democrataidd.

35. Os yw'r bwyd wedi'i gynnwys ym mhris y llety, ni thelir lwfans prydau bwyd ychwanegol.

36. Os nad yw prydau bwyd wedi'u cynnwys ym mhris y llety bydd costau unrhyw brydau bwyd a brynwyd yn cael eu talu ar gyflwyno derbynebau ac yn amodol ar gyfradd bresennol y lwfans treuliau a nodir yn Atodiad B. Mae rhywfaint o hyblygrwydd yn bosibl mewn achosion eithriadol a gafodd eu cymeradwyo gan y Cyfarwyddwr Gwasanaeth perthnasol.

## Teithio Ychwanegol

37. Byddwch yn gymwys i wneud hawliad am gostau teithio ychwanegol os ydych wedi ysgwyddo gwariant ychwanegol gan fod eich gweithle contractiol wedi'i newid gan yr Awdurdod a bod costau milltiroedd cymudo ychwanegol wedi'u hysgwyddo. Nid yw hyn yn berthnasol os ydych yn gofyn am newid i'ch gweithle neu'n gwneud cais am swydd mewn gweithle gwahanol.

38. Rydych yn gymwys i gael costau teithio ychwanegol o ddyddiad yr adleoli am gyfnod o ddeuddeg mis ar y mwyaf, neu ar ddyddiad cynharach pan na fydd costau ychwanegol yn cael eu hysgwyddo mwyach neu'n cael eu lleihau e.e. os byddwch yn symud yn nes at eich canolfan newydd. Os bydd symud tŷ yn golygu na fydd milltiroedd pellach yn cael eu hysgwyddo, yna ni fydd yr Awdurdod yn ad-dalu costau teithio ychwanegol.

39. Dim ond gwariant gwirioneddol ychwanegol fydd yn cael ei ad-dalu h.y. mae'n rhaid i chi ymgymryd â'r daith. Dyma'r gwahaniaeth rhwng cost teithio o'ch cartref i'r hen weithle a chost teithio o'ch cartref i'r gweithle newydd. Dyma filltiroedd sy'n uwch na milltiroedd y daith flaenorol i'r gweithle neu gostau ychwanegol a ysgwyddir os ydych yn teithio drwy ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus.

40. Er mwyn bod yn gymwys i gael costau teithio ychwanegol, rhaid eich bod yn teithio mwy na **5 milltir** ychwanegol bob ffordd (**10 milltir** y diwrnod) i weithle newydd sy'n bellach o'ch cartref. Nid yw gweithwyr achlysurol yn gallu hawlio costau teithio ychwanegol.

41. Os byddwch yn teithio i'r gwaith mewn car, byddwch yn cael y milltiroedd ychwanegol dros y llwybr byrraf i'r gweithle newydd ac yn ôl ar ôl i'r 10 milltir ychwanegol cyntaf gael ei ddidynnu. Er enghraifft, os ydych yn teithio 25 milltir ychwanegol y dydd (yno ac yn ôl) gallwch hawlio milltiroedd ychwanegol o 15 milltir y dydd gan nad oes ad-daliad am y 10 milltir gyntaf. Os byddwch yn dewis llwybr sy'n hirach at ddibenion hwylustod, yna ni fydd y costau milltiredd ychwanegol o ganlyniad i'r dewis hwn yn cael eu had-dalu.

42. Bydd ad-daliad ond yn cael ei wneud ar gyfer costau teithio ychwanegol **gwirioneddol** oherwydd gofynion teithio ychwanegol i'r gweithle newydd ac oddi yno. Os bydd dau neu fwy o weithwyr (sy'n ddarostyngedig i'r trefniadau hyn) yn penderfynu teithio gyda'i gilydd ar unrhyw ddiwrnod penodol, yna bydd ad-daliad ond yn cael ei wneud i un gweithiwr sy'n destun asesiad risg yn y gweithle a chanllawiau cyfredol y llywodraeth.

43. Ni fydd yr Awdurdod yn talu am yr amser ychwanegol a dreulir yn teithio.

44. Os ydych yn gweithio ar sail peripatetig heb unrhyw weithle gontractiol, nid ydych yn gymwys i hawlio costau teithio ychwanegol o dan y polisi hwn.

45. Bydd hawliadau Milltiroedd Ychwanegol yn cael eu talu ar gyfradd gyfredol CThEF sy'n berthnasol i'r holl hawliadau teithio eraill fel y nodir yn para. 28.

46. Ni ellir hawlio am filltiroedd ychwanegol yn ystod unrhyw absenoldeb o'r gwaith.

47. Mae'n rhaid i chi roi gwybod i'ch rheolwr llinell am unrhyw newid mewn amgylchiadau a allai effeithio ar eich cymhwysedd i hawlio am gostau milltiroedd ychwanegol. Bydd unrhyw ordaliadau'n cael eu hawlio'n ôl yn y gyflogres nesaf sydd ar gael.

48. Rheolwyr llinell sy'n gyfrifol am wirio ac awdurdodi hawliadau. Gellir gofyn am gyngor gan y Tîm Gwasanaethau Gweithwyr os oes angen.

49. Os cewch eich adleoli i weithle newydd dros dro am gyfnod o fis neu lai, byddwch yn gymwys i hawlio treuliau teithio swyddogol o'ch prif weithle. Os cewch eich adleoli dros dro am gyfnod o fwy na mis, yna bydd taliadau Teithio Ychwanegol yn berthnasol.

50. Dylid gwneud hawliad bob mis/bob 4 wythnos, a thrwy'r cyfleuster hunanwasanaeth ar-lein os yw ar gael. Os nad yw'r cyfleuster hwn ar gael, yna dylid cyflwyno ceisiadau gan ddefnyddio'r ffurflen hawlio Teithio Ychwanegol. Yn unol â Rheolau Gweithdrefnau Ariannol yr Awdurdod, bydd hawliadau ond yn cael eu prosesu os ydynt yn cael eu gwneud yn ystod y mis yn dilyn y gwariant.

## Cydraddoldeb

51. Rhaid i bob gweithiwr fabwysiadu agwedd gadarnhaol, agored a theg a gofalu y cedwir at Bolisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yr Awdurdod ac y caiff ei weithredu'n gyson heb ystyried hil, lliw, cenedligrwydd, gwreiddiau ethnig neu genedlaethol, anabledd, crefydd a chred neu ddiffyg cred, oed, rhyw, ailbennu rhywedd, hunaniaeth rhywedd a mynegiant rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd neu famolaeth, statws priodasol neu bartneriaeth sifil.

52. Yn ogystal, mae Safonau'r Gymraeg yn gofyn i ni 'sicrhau nad yw'r iaith yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg' a dylid defnyddio'r egwyddor hon wrth gymhwyso'r canllawiau hyn.

53. Os oes gennych unrhyw bryderon cydraddoldeb ac amrywiaeth ynghylch gweithredu'r polisi a'r weithdrefn hon, dylech gysylltu ag aelod o'r Tîm Adnoddau Dynol a fydd, os oes angen, yn sicrhau y caiff y polisi/gweithdrefn ei hadolygu yn ôl y galw.

Os oes angen copi o'r cyhoeddiad hwn arnoch mewn fformat arall, cysylltwch ag CHR@sirgar.gov.uk

**ATODIAD A**

## LWFANSAU PRYDAU BWYD

**Y tu allan i'r sir yn unig**

O'r 1af Ebrill 2010 ad-delir lwfans dyddiol o hyd at £28 fel a ganlyn:

Lle nad oes angen aros dros nos bydd lwfans cynhaliaeth yn daladwy fel a ganlyn:

- **Brecwast** – mwy na 4 awr cyn 11.00am **£4.00**
  (os nad yw wedi'i gynnwys fel rhan o arhosiad dros nos)
- **Cinio** - mwy na 4 awr gan gynnwys 12 canol dydd i 2.00pm **£8.00**
- **Te** – mwy na 4 awr gan gynnwys 3.00pm i 6.00pm **£3.00**
- **Cinio gyda'r hwyr** – mwy na 4 awr gan ddiweddu ar ôl 7.00pm **£13.00**

Os oes arhosiad dros nos sy'n cynnwys brecwast fel rhan o'r llety dros nos bydd cyfradd cynhaliaeth ddyddiol o £24 ar gael.

Telir hawliadau ar sail union wariant a ategir gan dderbynebau. Yr unig adeg y telir yr uchafswm yw pan fo'r union wariant yn gyfwerth â'r uchafswm neu'n uwch. (Gweler paragraff 6)

Pennwyd mai uchafswm cost aros dros nos yw £200 yn Llundain a £95 mewn mannau eraill a hynny o 1af Ebrill 2010. (Ni fydd y symiau uchod yn cynnwys TAW os gellir ei hadennill), ac mewn amgylchiadau arbennig, megis cadw lle mewn gwestai ar gyfer cynadleddau, bydd y Prif Weithredwr neu swyddog a enwebwyd ganddo, yn cael disgresiwn rhesymol i awdurdodi swyddog i fynd dros ben yr uchafswm a bennwyd. (Gweler paragraff 12 ar ddefnyddio'r cerdyn credyd corfforaethol)

Bydd uchafswm lwfans o £30 ar gael ar gyfer aros dros nos gyda ffrindiau neu berthnasau tra bydd swyddog ar ddyletswydd a gymeradwywyd, o 1 Ebrill 2022.

Caiff y lwfansau uchod eu newid yn awtomatig i adlewyrchu unrhyw newidiadau yng nghynllun lwfansau'r Aelodau.

**ATODIAD B**

**Ym mhob enghraifft, seilir y cyfrifiad ar daith o 10 milltir rhwng y Cartref a'r Man Gwaith**

***Enghraifft 1 – Mae swyddog yn mynd i gyfarfod gan deithio yno o'i gartref ac yna'n teithio i'w fan gwaith***

Yr union filltiroedd: O'r Cartref i'r Cyfarfod 5 milltir
O'r Cyfarfod i'r Man Gwaith 10 milltir
Cyfanswm y Milltiroedd 15 milltir

Sail yr Hawliad: Cyfanswm y milltiroedd – Taith o'r Cartref i'r Man Gwaith = nifer y milltiroedd ychwanegol
**Nifer y Milltiroedd Ychwanegol a hawlir** 15 milltir – 10 milltir = 5 milltir

***Enghraifft 2 – Mae swyddog yn mynd i gyfarfod gan deithio yno o'r man gwaith ac yna'n teithio i'w gartref***

Yr union filltiroedd: O'r Man Gwaith i'r Cyfarfod 10 milltir
O'r Cyfarfod i'r Cartref 5 milltir
Cyfanswm y Milltiroedd 15 milltir

Sail yr Hawliad: Cyfanswm y Milltiroedd – Taith o'r Man Gwaith i'r Cartref = nifer y milltiroedd ychwanegol
**Nifer y Milltiroedd Ychwanegol a hawlir** 15 milltir – 10 milltir = 5 milltir

***Enghraifft 3 – Mae swyddog yn mynd i gyfarfod gan deithio yno o'i gartref ac yna'n dychwelyd i'w gartref***

Yr union filltiroedd: O'r Cartref i'r Cyfarfod 20 milltir
O'r Cyfarfod i'r Cartref 20 milltir
Sail yr Hawliad: Cyfanswm y Milltiroedd – Taith o'r Cartref i'r Man Gwaith ac yn ôl = milltiroedd ychwanegol
Cyfanswm y Milltiroedd 40 milltir

Sail yr Hawliad: Cyfanswm y Milltiroedd – Taith o'r Cartref i'r Man Gwaith ac yn ôl = milltiroedd ychwanegol
**Nifer y Milltiroedd Ychwanegol a hawlir** 40 milltir – 20 milltir = 20 milltir

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council